OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2830

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011

## RHAN 5

Amrywiol

### Dileu neu ddifrodi marc adnabod

**22.** Ni chaiff neb, onid awdurdodir gan Weinidogion Cymru, ddileu neu ddifrodi marc adnabod.

### Gosod marc adnabod newydd yn lle'r un blaenorol

**23.**—(1) Rhaid i geidwad osod marc adnabod newydd yn lle'r un blaenorol os yw—

(a) wedi mynd yn annarllenadwy;

(b) wedi ei dynnu ymaith am resymau lles; neu

(c) wedi mynd ar goll.

(2) Rhaid i unrhyw berson sy'n gosod marc adnabod newydd yn lle'r un blaenorol naill ai—

(a) gosod yr un math yn union o farc adnabod; neu

(b) gosod marc adnabod newydd a chroes-gyfeirio'r marc adnabod newydd â'r marc adnabod gwreiddiol yn y cofnod a gedwir o dan erthygl 5.

### Dangos dogfennau a chofnodion

**24.** Caiff arolygydd ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw gofnod a wneir o dan y Gorchymyn hwn, os gofynnir am ei weld, a'i gwneud yn ofynnol gwneud copi neu allbrint ohono.

### Gorfodi

**25.**—(1) Gorfodir y Gorchymyn hwn gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu mewn perthynas ag unrhyw achos penodol, mai hwy fydd yn gorfodi'r Gorchymyn hwn yn lle'r awdurdod lleol.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru.

### Dirymiadau a diwygiadau

**26.**—(1) Dirymir Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008(**1**).

(**1**) O.S. 2008/1742 (Cy.172).

(2) Yn erthygl 12(2) o Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, yn lle “erthygl 10 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002” rhodder “erthygl 20 o Orchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2011”.